

CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYFARFOD :	CYNGOR SIR
DYDDIAD :	12 MAI 2011
TEITL YR ADRODDIAD :	PWYLLGOR SAFONAU NEWYDD - 2011
ADRODDIAD GAN :	Y SWYDDOG MONITRO
SWYDDOG CYSWLLT :	MEIRION JONES (est 2563)
PWRPAS YR ADRODDIAD :	SEFYDLU PANEL DEWIS

CEFNDIR

1. O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) rhaid i'r Cyngor fod â Phwyllgor Safonau gyda dim llai na phump a dim mwy na naw o Aelodau.
2. Rhaid i un Aelod o leiaf fod yn Gyngorydd Tref neu Gymuned, ac wedi'i enwebu gan y Cynghorau Tref a Chymuned.
3. Fe wnaeth y Cyngor hwn, wrth adolygu ei strwythur gwreiddiol, symud Cynghorwyr Sir oddi ar y Pwyllgor Safonau ond yn dilyn Cyfarwyddyd y Gweinidog fe gawsant eu hadfer. Ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd fe geir pum aelod annibynnol / lleyg, un Aelod Cyngor Tref / Cymuned a thri Chyngorydd Sirol.
4. Bydd tymor y pum Aelod annibynnol / lleyg a'r Cynghorydd Tref / Cymuned presennol sydd ar y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2011. Bydd angen i'r apwyntiadau newydd fod mewn grym o 18 Rhagfyr 2011.
5. Tra bod yn rhaid i Aelod y Cynghorau Tref / Cymuned gael ei enwebu gan yr holl Gyngorau Tref a Chymuned, rhaid i'r aelodau Annibynnol gael eu hapwyntio gan y Cyngor.
6. Mae holl Aelodau Annibynnol presennol y Pwyllgor Safonau yn dal y swydd am bedair blynedd. Mae holl Aelodau Annibynnol / Lleyg y Pwyllgor Safonau, ac eithrio'r Cadeirydd, Jeff Fotherell, yn gymwys i geisio eto am un cyfnod pellach os byddant yn penderfynu dewis cael eu hystyried gyda'r holl ymgeiswyr eraill.
7. Dywed y Rheoliadau y bydd raid cydymffurfio gyda'r broses ddewis statudol wrth benodi'r Aelodau Annibynnol. Mae'r broses honno'n dechrau gyda sefydlu Panel Dewis. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Panel Dewis gynnwys tri Chyngorydd Sir (nid oes angen cydbwysedd gwleidyddol), un person annibynnol ac un Cynghorydd Tref / Cymuned.

8. Gwaith y Panel fydd llunio meini prawf ar gyfer dewis Aelodau Annibynnol newydd. Bydd y llefydd gwag yn cael eu cyhoeddi mewn hysbysebion fydd yn gwahodd ceisiadau ysgrifenedig oddi wrth aelodau'r cyhoedd fydd yn dymuno cael eu hystyried fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau. Bydd pecyn gwybodaeth a ffurflen gais yn cael eu darparu i'r rhai fydd wedi mynegi diddordeb. Gofynnir wedyn i'r Panel Dewis sgorio'r ceisiadau, a llunio rhestr fer o'r ymgeiswyr a chynnal cyfweiliadau. Yn dilyn y broses hon bydd y Panel yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ac fe ofynnir i'r Cyngor gadarnhau'r apwyntiadau.

ARGYMHELLION

1. Bydd tymor Aelod(au) Annibynnol newydd y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2015.
2. Fod Panel Dewis yn cael ei sefydlu i wneud argymhelliad i'r Cyngor ynglŷn â'r rhai ddylai gael eu hapwyntio fel Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau o 18 Rhagfyr 2011 ymlaen.
3. Bod y tri Chynghorydd Sir fydd yn gwasanaethu ar y Panel Dewis yn cael eu henwebu a'u hapwyntio gan y Cyngor heddiw.
4. Bod y Cynghorydd Tref / Cymuned fydd ar y Panel Dewis yn cael ei enwebu gan "Unllais Cymru".
5. Bod dewis y person annibynnol i wasanaethu ar y Panel Dewis, yn dilyn proses o hysbysebu a chyflwyno ceisiadau ysgrifenedig, yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) a'r Swyddog Monitro ar y cyd, ac mewn ymgynghoriad gyda Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol.
6. Bydd y Panel Dewis yn derbyn y pwerau dirprwyedig canlynol gan y Cyngor:-
 - penderfynu ar y meini prawf ar gyfer aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau;
 - hysbysebu am unigolion sy'n cyfarfod â'r meini prawf ac sydd â diddordeb mewn dod yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau;
 - llunio rhestr fer, cyfweld ac enwebu ymgeiswyr priodol o blith yr ymgeiswyr hynny.

RECRIWTIO'R PWYLLGOR SAFONAU NEWYDD O RAGFYR 2011

AMSERLEN DDRAFFT

1.	Penodi Pwyllgor Dewis yn cynnwys 3 Chynghorydd Sir – a gymeradwywyd gan y Cyngor 1 Chynghorydd Tref/Cymuned – bwriedir cael cynnig gan “Unllais Cymru” 1 Person Annibynnol – i’w dd(d)ewis ar ôl hysbysebu.	12/05/2011 Cyfredol.
2.	Bu’n rhaid cyflwyno adroddiad i’r Cyngor llawn i gael y penderfyniad angenrheidiol. (PAPUR 1)	12/05/2011
3.	Llythyr i’r Cyngorau Tref a Chymuned ar ôl cysylltu yn y lle cyntaf gydag “Unllais Cymru” (PAPUR 2)	Mehefin 2011
4.	Hysbyseb yn y papurau newydd ar gyfer Person Annibynnol i wasanaethu ar y Panel Dewis. (PAPUR 3)	Canol mis Mehefin 2011 Dyddiad Cau Canol Mis Gorffennaf 2011
5.	Llythyr i’r rheini a ymatebodd i’r hysbyseb (PAPUR 4a) a’r wybodaeth gefndirol (PAPUR 4b) a’r ffuflen gais ddrafft (PAPUR 4c) (Rhaid ystyried Polisi Swyddfa Cofnodiadau Troseddol)	Fel sy’n angenrheidiol yn ôl yr ymateb – Canol Gorffennaf 2011
6.	Llythyr cychwynnol i’r 3 Chynghorydd Sir (PAPUR 5)	Gorffennaf 2011
7.	Cyfarfod – proses i ddewis Person Annibynnol i wasanaethu ar y Panel Dewis	yn fuan ar ôl dyddiad cau’r hysbyseb - Canol Gorffennaf 2011
8.	Llythyr o wahoddiad i fod yn berson annibynnol i wasanaethu ar y Panel Dewis yn dilyn y broses ddethol.	Diwedd Gorffennaf 2011
9.	Unllais Cymru i gadarnhau’r enwebiad yn achos Chynghorydd Tref/Cymuned i wasanaethu ar y Panel Dewis	Diwedd Gorffennaf 2011
10.	Cyfarfod cyntaf y Panel Dewis	Awst 2011
11.	Hysbyseb yn y papurau newydd ar gyfer Aelodau Annibynnol o’r Pwyllgor Safonau (PAPUR 6)	Dechrau Medi 2011 Dyddiad cau Canol Hydref 2011

12.	Llythyr i'r rheini sydd wedi ymateb i'r hysbyseb (PAPUR 7a) a "gwybodaeth gefndir ar gyfer yr ymgeisydd" (PAPUR 7b) a ffurflen gais ddrafft yn cynnwys 4 atodiad (PAPUR 7c)	Yn unol â'r ymateb – Canol Gorffennaf 2011.
13.	Llythyr at y 5 aelod o'r Panel Dewis "fel paratoad ar gyfer y cyfarfod i dynnu rhestr fer" (PAPUR 8)	Canol Hydref 2011
14.	Ffurflen geirda i'w chwblhau gan 2 Ganolwr (PAPUR 9a) a llythyr at y Canolwyr (PAPUR 9b)	Diwedd Hydref 2011
15.	Cyfarfod i dynnu rhestr fer ar gyfer Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau	Dechrau Tachwedd 2011
16.	Cyfweliadau ar gyfer Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau	Canol Tachwedd 2011
17.	Llythyr o wahoddiad i ddod yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dilyn y broses ddethol (PAPUR 10)	Canol/diwedd Tachwedd 2011
18.	Adroddiad i'r Cyngor Sir ar derfyn y broses ddethol (PAPUR 11)	8/12/2011
19.	Llythyr i gadarnhau penderfyniad y Cyngor Sir i wneud y penodiadau i'r Pwyllgor Safonau (PAPUR 12)	Canol Rhagfyr 2011
20.	Hysbyseb yn y papurau newydd i gadarnhau penodi'r 5 Aelod Annibynnol a'r 2 Gyngorydd Tref/Cymuned a'r 2 Cyngorydd Sir i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau (PAPUR 13)	Ionawr 2012

**ADRAN Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU
CYFREITHIOL A PHWYLLGORAU
DEPARTMENT OF THE DIRECTOR OF LEGAL
AND COMMITTEE SERVICES**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.)Cyfreithiwr/Solicitor
CYFARWYDDWR GWASANAETHAU
CYFREITHIOL A PHWYLLGORAU/SWYDDOG
MONITRO / DIRECTOR OF LEGAL AND
COMMITTEE SERVICES / MONITORING OFFICER**

Clercod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned
The Clerks of all 40 Town and Community
Councils

**CYNGOR SIR YNYS MÔN /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn / Anglesey
LL77 7TW**

DX: 701771 - LLANGFNI

**ffôn / tel: (01248) 752586
ffacs / fax: (01248) 752132**

E-Bost – E-mail: LBXCS@anglesey.gov.uk

**Ein Cyf – Our Ref. LB/CAH/CC-013763-LB
Eich Cyf – Your Ref.**

Annwyl Syr/Fadam

Dear Sir/Madam

**PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL'S
YNYS MÔN STANDARDS COMMITTEE**

Hoffwn ddwyn eich sylw at ddau fater yng
nghyswllt Pwyllgor Safonau'r Cyngor :-

I would like to draw to your attention two
issues in relation to the Council's Standards
Committee:-

1. Fel y gwyddoch mae'n rhaid i'r Cyngor Sir, yn gyfreithiol, gynnal Pwyllgor Safonau gyda chyfrifoldebau statudol yng nghyswllt ymddygiad Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. O'r herwydd rhaid sicrhau bod ar y Pwyllgor Safonau un cynrychiolydd i'r Cynghorau Tref/Cymuned ond bod swyddogaeth yr unigolyn hwnnw wedi ei chyfyngu i wrando ar haeriadau yn erbyn Cynghorydd Tref/Cymuned pan fo haeriadau o'r fath yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
1. As you know, the County Council is legally required to operate a Standards Committee which has statutory responsibilities in relation to the conduct of County Councillors and Town and Community Councillors. Consequently, the Standards Committee must include one Town/Community Council representative, whose role is restricted to hearing allegations against Town/Community Councillors, following referral to the Standards Committee by the Public Services Ombudsman for Wales.

Nodyn – Bwriedir gofyn i'r Cyngor Sir newid y rhif o gynrychiolwyr Cynghorau Tref/Cymuned o 1 i 2

Note – It is intended to ask the County Council to change the number of representatives of Town and Community Councils from 1 to 2.

Ar hyn o bryd Cynghorydd Raymond Evans, Cyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog yw'r cynrychiolydd i'r Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau. Daw ei gyfnod i ben ar 17 Rhagfyr 2011.

Councillor Raymond Evans, of Llanfihangel Esceifiog Community Council, is currently the Town and Community Council representative on the Standards Committee. His term of office, though, is due to end on the 17th December 2011.

Dan yr amgylchiadau rhaid penodi 1/2 cynrychiolydd newydd am y cyfnod fydd yn cychwyn am 18 Rhagfyr 2011 ac yn parhau am 4 blynedd neu hyd oni fydd yr aelod a ddewisir yn peidio â bod yn Gynghorydd Tref/Cymuned - pa ddyddiad bynnag sy'n digwydd cyntaf. Nodwch os gwelwch yn dda nad yw Cynghorwyr Sir cyfredol, na gweithwyr cyfredol Cyngor Sir Ynys Môn yn gymwys i'w henwebu.

In the circumstances 1/2 new representatives need to be appointed, for a term beginning on the 18th December 2011. The term will last for four years, or until the member ceases to hold office as a Community/Town Councillor, whichever occurs first. Please note that neither current County Councillors, nor current employees, of the Isle of Anglesey County Council are eligible to be nominated.

Felly rydwyf wedi ysgrifennu at holl Gynghorau Tref a Chymuned yr Ynys yn gofyn iddynt wneud trefniadau i ddewis, ar y cyd, 1/2 berson i gynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau o 18 Rhagfyr 2011 ymlaen.

I have therefore written to all of the Island's Town and Community Councils requesting that they now make arrangements to select 1/2 jointly agreed nominee(s) to represent all the Town and Community Councils on the Standards Committee, from 18th December 2011.

Efallai y byddwch yn cytuno i ofyn i gorff allanol megis "Unllais Cymru" gynnal y broses o ddewis a dethol. Ond pa broses bynnag a ddewisir rhaid sicrhau cyfle rhesymol a chyfartal i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned gyflwyno enwau, gyda'u caniatâd os mai dýna yw eu dymuniad, a phleidleisio ar yr enwau hynny. Pe penderfynid gwneud hynny trwy gael cyfarfod, yn hytrach na phleidleisio trwy'r post, yna gall y Cyngor Sir, â chroeso, ryddhau Siambr y Cyngor i'r pwrpas hwnnw.

You may, of course, agree to ask a third party facilitator, such as "One Voice Wales", to put in place a selection process. Whatever process is adopted should include a reasonable and equal opportunity for all Town and Community Councils to put forward nominees (with their consent), if they wish to do so, and to vote on those who have been nominated. If it is decided to do this by means of a meeting, rather than through postal balloting, then the County Council will be pleased to make the Council Chamber available for that purpose.

Ond beth bynnag fydd eich dewis bydd raid rhoi gwybod i'r Cyngor Sir beth yw enwau'r 1/2 unigolyn y cytunwyd arno ar y cyd erbyn a hynny gan y bydd raid i'r Cyngor llawn, yn ffurfiol, gadarnhau'r enwebiadau yn ei gyfarfod ar Os gwelwch yn dda gyrrwch fanylion am yr 1/2 unigolyn y cytunwyd arnynt yn ysgrifenedig ataf i.

2. Ond hefyd mae'r aelodau annibynnol sydd ar y Pwyllgor Safonau (y rhai hynny nad ydynt yn Gynghorwyr) yn peidio â bod yn aelodau ar 17 Rhagfyr 2011 ac mae'r Cyngor Sir wedi cychwyn ar y broses o ddethol. I ddethol mae'n rhaid, dan y gyfraith, sefydlu Panel Dethol. Hefyd ar y Panel rhaid sicrhau un cynrychiolydd i'r Cynghorau Tref/Cymuned.

Yn ei gyfarfod diwethaf cytunodd y Cyngor Sir y buasai "Unllais Cymru" yn enwebu un Cynghorydd Tref/Cymuned i wasanaethu ar y Panel Dethol. Os ydyw eich Cyngor chi yn aelod o "Unllais Cymru" efallai y bydd y corff hwnnw yn cysylltu gyda chwi ynghylch yr enwebiad. Yng nghyswllt y broses hon mae dau bwynt yr hoffwn eu gwneud :-

- Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol nad yw'r holl Gynghorau Tref a Chymuned yn aelodau o "Unllais Cymru" ac o'r herwydd ni fydd pob Cyngor yn cael y cyfle i enwebu aelod i fod ar y Panel Dethol. Ond ar ôl ystyried rhai ystyriaethau megis cydbwysedd cyfrannol, oedi a chostau, cafodd y llwybr hwn ei argymhell fel un rhesymol a chafodd ei dderbyn gan y Cyngor Sir.
- Rhaid cofio bod y Panel Dethol yn fater cwbl ar wahân i'r cais i enwebu 1/2 aelod i gynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned yn uniongyrchol ar y Pwyllgor Safonau. Swyddogaeth y Panel Dethol fydd llunio rhestr fer, cyfweld a dethol

However you decide to proceed, the County Council must be informed of the identity of your jointly agreed 1/2 nominee(s) by..... as the nominations must be formally confirmed by the full Council at its meeting on the Details of the 1/2 agreed nominees should be sent to me in writing please.

2. Additionally, as the independent members of the Standards Committee (those who are not Councillors) will also cease to hold office on the 17th December 2011 the County Council is now commencing a process of selection. To do this, it is required by law to establish a Selection Panel. The Panel must also include one Town/Community Council representative.

At its last meeting, the County Council agreed that "One Voice Wales" would nominate the Town/Community Councillor to serve on the Selection Panel. If your Council is a member of "One Voice Wales" you may be approached about this nomination. There are two points to be made with regard to this process:-

- The County Council acknowledges that not all Town and Community Councils are affiliated to "One Voice Wales" and therefore not all Town and Community Councils will have an opportunity to nominate a member to take part in the work of the Selection Panel. However, for reasons of proportionality, delay and expense this was recommended as a reasonable solution and was accepted as such by the County Council.
- The work of the Selection Panel should not be confused with the separate request to nominate 1/2 agreed member(s), from among all the Town and Community Councils, direct to the Standards Committee itself. The role of

aelodau lleyg i'r Pwyllgor Safonau a daw'r gwaith hwnnw, gwaith sylweddol, i ben yn Ond bydd bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau yn ymrwymiad cyfnod hir a hynny'n golygu derbyn hyfforddiant sylweddol.

the Selection Panel will be to shortlist, interview and select lay members for the Standards Committee and the work involved, although substantial, will come to an end in Membership of the Standards Committee, though, will be a long term commitment involving a significant degree of training.

Petaech yn dymuno cael rhagor o oleuni ar y materion yn y llythyr hwn mae croeso i chwi gysylltu gyda mi ar 01248 752586 neu gyda fy nghyd-weithiwr Mr. Meirion Jones ar 01248 752563.

If you require any clarification concerning the matters raised in this letter please do not hesitate to telephone me on 01248 752586 or my colleague Mr Meirion Jones on 01248 752563.

Llawer o ddiolch.

Many thanks.

Yr eiddoch yn gywir / Yours sincerely

Lynn Ball

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro
Director of Legal and Committee Services/Monitoring Officer



PWYLLGOR SAFONAU – PANEL DETHOL

Erbyn 17 Rhagfyr 2011 mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu penodi pump o aelodau annibynnol o'r cyhoedd i fod ar ei Bwyllgor Safonau.

Ond yn gyntaf bydd raid i'r Cyngor sefydlu Panel Dethol ac arno dri chynghorydd sir, un cynghorydd tref/cymuned ac un aelod annibynnol o'r cyhoedd.

Felly rydym yn gwadd y cyhoedd :-

- Sy'n dymuno bod yn aelod annibynnol o'r Panel Dethol;
- Sydd yn bodloni'r gofynion perthnasol a hynny'n cynnwys profiad o recriwtio a dewis a hefyd sydd gyda gwybodaeth am faterion cyfleon cyfartal;
- Sydd yn annibynnol yn wleidyddol a heb unrhyw gyswllt gyda'r Cyngor;
- Sydd ar gael i fynychu rhyw 6 o gyfarfodydd gyda'r nos yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni rhwng2011

Ni fydd tâl am y gwaith ond telir rhai costau yn ôl cynllun y Cyngor Sir.

Gallwch gael ffurflen gais a manylion am y broses trwy gysylltu â Miss Lynn Ball, Cyfarwyddwraig y Gyfraith a Gwasanaethau Pwyllgorau a'r Swyddog Monitro, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW. Ffôn 01248 752568.

Bydd raid dychwelyd y ffurflenni wedi eu llenwi i'r Cyngor erbyn 2011.

Polisi'r Cyngor yw hyrwyddo ac integreiddio cyfleon cyfartal ym mhob agwedd ar ei waith ac felly mae'n gwadd ac yn annog ymgeiswyr o'r grwpiau hynny sydd, ar hyn o bryd, wedi eu tangynrychioli - ac yn cynnwys merched, lleiafrifoedd ethnig a phobl gydag anableddau. Yn y broses defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a phenodir yn ôl gallu a rhinweddau'r unigolyn yn seiliedig ar gais ysgrifenedig yn unig. Ni fydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei ddewis 2011 a rhoddir gwybod am hynny i'r holl ymgeiswyr eraill cyn gynted ag y bo'n bosib ar ôl y dyddiad hwn.

STANDARDS COMMITTEE – SELECTION PANEL

The Isle of Anglesey County Council intends to appoint five independent members of the public to its Standards Committee by the 17th December 2011.

To do so the Council must establish a Selection Panel of three county councillors, one town or community councillor and one independent member of the public.

Applications are therefore invited from members of the public who :-

- wish to be appointed as the independent member of the Selection Panel;
- meet the relevant criteria, including current experience of recruitment and selection and knowledge of equal opportunities issues;
- are politically independent and have no connection to the Council;
- are available to attend around 6 evening meetings at the Council Offices in Llangefni between2011

The appointment will not be remunerated but certain expenses will be payable in accordance with the County Council's Scheme.

An application form and further details may be obtained from Miss Lynn Ball, Director of Legal and Committee Services and Monitoring Officer, County Council Offices, Llangefni, Isle of Anglesey LL77 7TW. Phone No. 01248 752568.

Completed forms must be received by the Council no later than 2011.

The policy of the County Council is to promote and integrate equality of opportunity into all aspects of its work. The Council therefore welcomes and encourages applications from groups currently under represented, including women, ethnic minorities and people with disability. The principles of fair and open competition will apply and the appointment will be made on merit as demonstrated by the written application alone. No interviews will be conducted.

Selection is due to take place on the 2011. All candidates will be notified in writing as soon as possible thereafter.

01248/752586

Ein Cyf/Our Ref:
Eich Cyf/Your ref:

E-Bost / E-mail : LBXCS@anglesey.gov.uk

Annwyl

Cais am aelodaeth leyg o Banel Dethol y Phwyllgor Safonau

Diolch i chwi am ddangos diddordeb.

Ynglwm yr ydym yn amgau :-

1. Gwybodaeth gefndirol i ymgeiswyr.
2. Ffurflen Gais.
3. Amlen barod.

Fel bod modd i ni ystyried eich enw i fod yn aelod lleyg o'r Panel Dethol sicrhewch y bydd eich Ffurflen Gais wedi ei chwblhau yn cael ei derbyn gan y Cyngor erbyn

Y bwriad yw dethol aelod, gan ddefnyddio ffurflenni cais ysgrifennedig yn unig, ar
..... Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael gwybod am y penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n bosib ar ol y dyddiad hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir

Dear

Re: Application for lay-membership of the Standards Committee Selection Panel.

Thank you for your expression of interest.

Please find attached:-

1. Background Information for applicants.
2. Application Form.
3. Pre-paid envelope.

To be considered for the role of lay member of the Selection Panel, please ensure that your completed Application Form has been received by the Council no later than

It is intended that selection, relying upon written applications alone, will take place on the
..... All candidates will be notified of the outcome, in writing, as soon as possible after that date.

Yours sincerely,

Lynn Ball
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreidthiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro
Director of Legal and Committee Services/Monitoring Officer

GWYBODAETH GEFNDIROL I YMGEISWYR

- Dan gyfraith gwlad mae yn rhaid i'r Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor Safonau.
- Mae gwaith y Pwyllgor Safonau yn cyffwrdd â'r holl Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned sy'n gynrychiolwyr i etholwyr Ynys Môn.
- Y rhain yw prif ddyletswyddau y Pwyllgor Safonau :-
 - Gweithredu ar adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt unrhyw haerid fod Cynghorydd wedi torri'r Côt Ymddygiad. Efallai y gofynnir i'r Pwyllgor Safonau gynnal Gwrandawriad ac, os ydyw'n briodol, penderfynu ar gosb i Gynghorydd ar ôl sefydlu bod hwnnw wedi torri'r Côt Ymddygiad. Y gosb fwyaf y gall y Pwyllgor Safonau ei defnyddio yw atal unigolyn rhag bod yn Gynghorydd am gyfnod o chwe mis.
 - Ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr. Os ydyw y caniatâd arbennig yn cael ei roddi yna gall y Cynghorydd gyfranogi mewn trafodaeth a phleidleisio ar eitem neu eitemau na chât fel arall, ac oherwydd darpariaeth yn y Côt Ymddygiad, gyfrannu yn ei chylch/cylch. Penderfynir ar geisiadau o'r fath fesul un gan ddibynnu ar a ydyw'r y dystiolaeth a gyflwynwyd yn sefydlu rheswm statudol sy'n caniatáu i'r Pwyllgor Safonau roddi caniatad arbennig o'r fath. Dan yr amgylchiadau hyn rhaid i'r Pwyllgor Safonau fodloni eu hun bod tystiolaeth wedi ei chyflwyno yn dangos bod y budd cyhoeddus yn ystyriaeth bwysicach nag unrhyw waharddiad yn y Côt.
 - Sicrhau fod y Cynghorwyr yn cael hyfforddiant digonol yng nghyswllt y Côt Ymddygiad.
- Ar Bwyllgor Safonau Ynys Môn mae pump o aelodau annibynnol (h.y aelodau o'r cyhoedd, nid Cynghorwyr) ac un Cynghorydd Tref/Cymuned a'r olaf yn cyfrannu yn y drafodaeth pan fo'r pwnc yn ymwneud â Chynghorydd Tref neu Gymuned a 3 Cynghorydd Sirol. Rhaid dewis un o blith yr aelodau annibynnol i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.
- Daw cyfnodau yr holl aelodau annibynnol presenol i ben ar 17 Rhagfyr 2011. Ond mae gan yr aelodau hynny hawl i ailymgeisio yn yr un ffordd ag ymgeiswyr eraill.
- I bwrras dewis Pwyllgor Safonau newydd mae'n rhaid i'r Cyngor, dan y rheoliadau, sefydlu Panel Dethol i benderfynu ar feini prawf, hysbysebu, paratoi rhestr fer a dethol, trwy gyfweiliad y pum aelod annibynnol newydd. Bydd y Panel Dethol yn cyflwyno'i argymhellion i'r Cyngor llawn a bydd raid i hwnnw benodi, yn ffurfiol, aelodau i'r Pwyllgor Safonau newydd i weithredu o 18 Rhagfyr 2011 ymlaen. Bydd y penodiad yn un am bedair blynedd.
- Bydd y Panel Dethol yn dechrau y broses yn ei gyfarfod cyntaf ac mae'n debyg y bydd hwnnw yn cael ei gynnal yn gynnar ym Am 6pm bydd y cyfarfodydd yn dechrau a chânt eu cynnal yn breifat ac yn un o Stafelloedd Pwyllgor y Cyngor, ym Mhencadlys y Cyngor yn Llangefni. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael. Rhwng a disgwylir y bydd chwe chyfarfod i gyd.
- Ar y Panel dethol bydd pum aelod a rheini yn cynnwys tri Chynghorydd Sir sydd eisoes wedi eu penodi, sef y Cynghorwyr W. John Chorlton, Bob Parry a Bryan Owen. At y rhain bydd un Cynghorydd Tref/Cymuned sydd heb ei benodi eto ac un aelod o'r cyhoedd/aelod lleyg.

- I gefnogi gwaith Panel Dethol bydd dau o Uchel Swyddogion y Cyngor ar gael ac un ohonynt yn cynrychioli'r gwasanaeth cyfreithiol ar llall yn cynrychioli Adnoddau Dynol y Cyngor. Bydd y Swyddogion hyn wrth law bob amser i gynnig cyngor a chymorth a nhw fydd yn paratoi y rhan fwyaf o'r dogfennau yn ol cyfarwyddyd y Panel Dethol.
- Ni fydd yr aelod llewyg a benodir i'r Panel Dethol yn derbyn tâll ond caiff hawlio treuliau yn unol â Chynllun y Cyngor Sir. (Atodir gopi)
- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei ddewis yn seiliedig ar yr wybodaeth yn y cais ysgrifenedig yn unig; bydd yn rhaid i'r cais gyrraedd y Cyngor erbyn 5pm ar ddydd Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael sylw.
- Pedwar o swyddogion y Cyngor Sir, trwy awdurdod a roddir iddynt gan y Cyngor llawn, fydd yn dewis yr ymgeisydd. Y swyddogion hynny yw y Rheolwr-gyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol. Disgwylir y byddant yn cyfarfod i wneud y penderfyniad ar a rhoddir gwybod am hwnnw i'r holl ymgeiswyr cyn gynted ag y bo'n bosib ar ol y dyddiad hwn.
- Wedyn gofynnir i'r ymgeisydd llwyddiannus pa bryd y bydd ar gael fel bod modd cynnal y cyfarfod cyntaf o'r Panel Dethol yn gynnar ym Medi. Cyn y cyfarfod cyntaf hwnnw bydd holl aelodau'r Panel Dethol yn derbyn Pecyn Gwybodaeth.
- Ar y ffurflen gais sydd ynghlwm rhestrir y meini prawf hynny a ddefnyddir wrth ystyried yr ymgeiswyr. Ond dan y gofynion statudol mae yn bosib y bydd rhai ymgeiswyr posib yn cael eu gwahardd rhag ymgeisio. Mae'r darpariaethau hyn yn ymddangos yn **rhan 2.1** y ffurflen gais. Cyn cyflwyno'ch cais gofynnir i chwi roddi sylw arbennig i'r materion hyn..



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Defnydd Swyddogol (Cadwch yn Glir)
(SC)

Pwyllgor Safonau

Cais am Aelodaeth Lleyg o'r Panel Dethol

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau pob blwch ar y ffurflen.

Rhan 1: GWYBODAETH BERSONOL

Teitl: _____ Enw Cyntaf: _____ Cyfenw: _____

Cyfeiriad :

_____ Côt Post: _____

Cyfeiriad "e" bost: _____

Rhif ffôn yn ystod y dydd: _____

Rhif ffôn gyda'r nôs: _____

Rhif ffôn symudol: _____

Rhan 2 : GWAHARDDIAD

2.1 Gwaharddiad Awtomatig

Mae rheoliadau statudol yn gwahardd yn awtomatig unrhyw ymgeisydd sydd:

- yn aelod cyfredol o Gyngor Sir Ynys Môn
- yn aelod cyfredol cyfetholedig o Gyngor Sir Ynys Môn
- yn weithiwr cyfredol i Gyngor Sir Ynys Môn
- yn Gyngorydd cyfredol ar unrhyw Gyngor Sir, Gyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân arall
- yn Gyngorydd Tref / Cymuned cyfredol
- yn gyn Gyngorydd o Gyngor Sir Ynys Môn
- yn gyn Gyngorydd cyfetholedig o Gyngor Sir Ynys Môn
- yn gyn weithiwr i Gyngor Sir Ynys Môn
- yn gyn Gyngorydd o unrhyw Gyngor Sir, Gyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân arall
- yn gyn Gyngorydd Tref / Cymuned
- yn briod i Gyngorydd cyfredol o Gyngor Sir Ynys Môn
- yn briod i weithiwr cyfredol i Gyngor Sir Ynys Môn
- yn briod i Gyngorydd cyfredol ar unrhyw Gyngor Sir, Gyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân arall
- yn briod i Gyngorydd Tref/Cymuned cyfredol

I alluogi'r Cyngor ystyried eich cais nodwch eich cymhwyster drwy arwyddo'r datganiad yn y blwch isod

Rwyf yn cadarnhau nad wyf oddifewn i unrhyw un o'r categorïau a restrir uchod

Llofnod yr ymgeisydd.....

2.2 Gwaharddiad Dewisol

Byddwch cystal â chwblhau pob cwestiwn yn Rhan 2.2. Fe all atebion i'r cwestiynau yn yr adran hon arwain i ymgeiswyr gael eu gwahardd. Dibynna hyn ar natur a graddfa ymwneud yr ymgeisydd â'r Cyngor/gweithgaredd gwleidyddol.

- 2.2.1** Gofynnir i chi os gwelwch yn dda i roi manylion o unrhyw berson rydych mewn cysylltiad agos â hwy neu'n perthyn i chi (e.e. ffrind agos, partner, mab/merch, rhiant, brawd/chwaer, neu berthynas agos arall) sydd ar hyn o bryd neu a fu yn Gynghorydd neu weithiwr o unai Gyngor Sir Ynys Môn neu Cyngor Tref/Cymuned ym Môn. **Os nad oes cysylltiad o'r fath ganddoch dylech ddweud hyn.**




- 2.2.2** Gofynnir i chi os gwelwch yn dda i roi manylion o'r nifer a'r math o weithgareddau busnes/masnachol rydych wedi trin efo Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod y 4 mlynedd diwethaf. **Os nad ydych wedi trin unrhyw fusnes efo'r Cyngor Sir yn ystod y 4 mlynedd diwethaf dylech ddweud hyn.**



2.2.3 Rhowch fanylion os ydych yn dibynnu ar Gyngor Sir Ynys Môn am unrhyw ran o'ch incwm. **Os nad oes unrhyw ddibyniaeth o'r fath dylech ddweud hyn.**

2.2.4 Gofynnir i chi os gwelwch yn dda i roi manylion o unrhyw gysylltiad arall sydd ganddoch gyda Chyngor Sir Ynys Môn, ei Gyngorwyr neu weithwyr pa bynnag ddibwys neu pell. (Dylech ddiystyru y ffaith eich bod efallai'n derbyn unai gyda phawb arall neu gyda nifer o'r cyhoedd unrhyw wasanaeth arall gan y Cyngor). **Os nad oes cysylltiad o'r math ganddoch yna dylech ddweud hyn.**

2.2.5 Gofynnir i chi os gwelwch yn dda i roi manylion o'ch aelodaeth cyfredol neu blaenrol o unrhyw blaid wleidyddol neu grŵp ymgyrchu gan gynnwys unrhyw swydd roeddech yn ddal. Os ydych wedi ymgeisio am swydd gwleidyddol (e.e. fel Cynghorydd neu AS ac ati) dylech roi manylion. **Dylech ddweud os y gallwch ddangos eich bod yn wleidyddol annibynnol /niwtral**



Rhan 3: MEINI PRAWF

3.1 Profiad Perthnasol

Gofynnir i chi os gwelwch yn dda i roi manylion o unrhyw addysg, hyfforddiant, profiad neu sgiliau perthnasol i waith y Panel Dethol. Mae'r Cyngor â diddordeb arbennig i glywed gan ymgeiswyr sydd â phrofiad cyfredol neu diweddar o recriwtio, cyfweld a dewis gan gynnwys gwerthfawrogiad o faterion cyfle cyfartal a dealltwriaeth o gyfrinachedd. Byddai'r medrusrwydd hynny'n cael ei groesawu os byddai wedi ei ennill trwy gyflogaeth neu fel arall.

3.1.1 Gofynnir i chi os gwelwch yn dda i roi manylion o brofiad perthnasol, fel y disgrifir ym mharagraff 3.1 uchod, wedi ei ennill trwy gyflogaeth yn y sector preifat, sector cyhoeddus, neu'r ddau.



3.1.2 Gofynnir i chi os gwelwch yn dda i roi manylion o brofiad perthnasol, fel y disgrifir ym mharagraff 3.1 uchod, wedi ei ennill heb fod drwy gyflogaeth, e.e. fel llywodraethwr ysgol, mewn sefydliad gwirfoddol, elusenol neu grefyddol neu mewn cyswllt arall.

DRAFT

3.2 Annibyniaeth Personol a Gwrthrychedd

Yn ogystal a chyfranu at y broses dewis, bydd yr aelod lleyg o'r Panel yn gorfod bodloni ei hun ynglyn â chywirdeb y broses apwyntio ac, os yn addas, i herio unrhyw fater sy'n achosi pryder. Gofynnir i ymgeiswyr i roi manylion o unrhyw rôl maent yn neu wedi ymgymeryd ag o ac sydd yn neu wedi gofyn am annibyniaeth personol a gwrthrychedd. Byddai hyn yn gallu golygu aelodaeth o driwlynlys neu banel neu brofiad o ymdrin â chwynion, achwyniadau, anghydfod neu gynnal ymchwiliad neu ymholiad. Gall hyn fod wedi bod mewn cyswllt proffesiynol neu gwirfoddol.

DRAFT

3.3 **Cyfraniad i'r Gymuned**

Gofynnir i chi os gwelwch yn dda i roi manylion o'ch rhan mewn unrhyw gyfraniad cyfredol neu diweddar i fywyd eich Cymuned. Gallai hyn fod yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyflogaeth (ond nid gyda'r Cyngor Sir), aelodaeth o gorff llywodraethol ysgol, mewn sefydliad gwirfoddol, elusenol neu grefyddol neu mewn cyswllt arall.

DRAPAF

Rhan 4 : GWYBODAETH YCHWANEGOL

Os oes unrhyw wybodaeth pellhach yr ydych yn meddwl y dylai y Cyngor gymeryd i ystyriaeth, byddech cystal a nodi'r manylion isod.



Rhan 5: DATGANIAD

Gofynnir i chi os gwelch yn dda i lofnodi a dyddio'r datganiad isod.

Hyd y gwn i mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y ffurflen hon yn gywir.

Llofnod yr ymgeisydd _____

Dyddiad _____

Nodiadau i'r Ymgeisydd

- i. Pan fyddwch wedi ei chwblhau anfonwch y ffurflen hon yn yr amlen barod sydd wedi cael ei darparu i Miss Lynn Ball, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW erbyn 5pm ar
- ii. Gofynnir i chi os gwelch yn dda i gwblhau a dychwelyd y ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal a atodwyd.
- iii. Gwaetha'r modd ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried.

FFURFLEN MONITRO CYFLE CYFARTAL	EQUAL OPPORTUNITIES MONITORING FORM
Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwymedig i Gyfleon Cyfartal mewn Gwaith ac ni wahaniaethir ar sail rhyw, hil, anabledd, lliw, gwreiddiau ethnig na chenedl, statws prodasol, cyfrifoldeb tuag at berthnasau, crefydd nac oed (hyd at 65).	The Isle of Anglesey County is committed to Equal Opportunities in Employment and does not discriminate on the grounds of gender, race, disability, colour, ethnic or national origin, nationality, marital status, responsibility for dependents, religion or age (up to 65).
Bydd y cyngor, o gael y wybodaeth isod, yn medru cadw golwg ar y polisi hwn a'i ddatblygiad.	Providing the following information will enable the Council to monitor the progress of this policy.

CAIS I FOD YN AELOD LLEYG / APPLICATION TO BE A LAY MEMBER

RHYW/SEX: MENYW/FEMALE

GWRYW/MALE

STATWS PRIODASOL/MARITAL STATUS:

PRIOD/MARRIED: GWEDDW/WIDOWED: SENGL/SINGLE:

WEDU GWAHANU/SEPARATED: YSGARU/DIVORCED:

OEDRAN/AGE: 16-18 19-25 26-35 36-45
46-55 56-65

TARDDIAD ETHNIG/ETHNIC ORIGIN:

AFFRICA/AFRICAN

ASIA/ASIAN

CARIBI/CARIBBEAN

PRYDAIN/IWERDDON/BRITISH/IRISH

EWROPEAIDD/EUROPEAN

ARALL/OTHER

Dychwelwch y ffurflen hon gyda'ch ffurflen gais os gwelwch yn dda/Please return this form with your completed application form – thank you.

Cynghorwyr Bob Parry, John Chorlton a Bryan Owen
Councillors Bob Parry, John Chorlton and Bryan Owen

01248/752586

Ein Cyf/Our Ref:
Eich Cyf/Your ref:

E-Bost / E-mail : LBXCS@anglesey.gov.uk

Annwyl Cynghorydd []

Dear Councillor []

**Y PWYLLGOR SAFONAU – PANEL DETHOL
I BENODI AELODAU ANNIBYNNOL
NEWYDD**

**STANDARDS COMMITTEE - SELECTION
PANEL TO APPOINT NEW INDEPENDENT
MEMBERS**

Rydych chi wedi cytuno i fod ar y Panel a sefydlwyd gan y Cyngor i ddewis pum aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau newydd. Bydd raid i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r penodiadau a rhaid i hynny ddigwydd erbyn

As you know, you have agreed to be appointed to the Panel established by the Council to select five independent members to the new Standards Committee. The appointments have to be approved by the full Council and must take effect by the

Yn ychwanegol at aelodau etholedig bydd ar y Panel Dethol aelod o'r cyhoedd. Rhoddwyd hawliau dirprwyol i ddewis yr aelod hwnnw o'r cyhoedd gan y Cyngor llawn i grŵp o bedwar swyddog (y Rheolwr-gyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau a hefyd i Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol). Bydd y grŵp hwn o swyddogion yn cyfarfod i wneud y penderfyniad ar

In addition to elected members, the Selection Panel will also include a member of the public. Delegated authority to select that member of the public was given by the full Council to a group of four officers (the Managing Director, the Corporate Director - Finance, the Director of Legal and Committee Services and the Head of Corporate Services). That group of Officers is due to meet and make the selection on the

Mae'r hysbyseb briodol wedi ymddangos yn y wasg leol, a chafodd y rheini a fynegodd ddiddordeb wybodaeth gefndirol a ffurflen gais. Mae copïau ohonynt ar gael ynghlwm gyda'r llythyr hwn.

The relevant advertisement has been placed in the local press, with those having expressed an interest being sent Background Information and an Application Form. Copies of both are attached.

Cyn gynted ag y bo'n bosib, ar ôl.....
CC-013763-LB/112227

I will write to you again as soon as possible

....., byddaf yn ysgrifennu atoch i ddweud pwy yw'r person a benodwyd i'r Panel Dethol.

Mae trefniadau hefyd yn eu lle i dderbyn enwebiad Cynghorydd Cymuned/Tref i fod yn aelod o'r Pwyllgor Dethol.

Ar ôl y dyddiad hwn bydd Mrs Jan Adams, y Clerc i'r Panel Dethol, yn cysylltu gyda chwi gyda gwybodaeth am ddyddiad y cyfarfod cyntaf ac am y tro cytunwyd y bydd hwnnw ar

Os bydd gennych unrhyw gwestiwn ynghylch y llythyr hwn neu ynghylch yr atodiadau mae croeso i chwi fy ffonio.

after the to confirm the identity of the person appointed to the Selection Panel.

Arrangements are also in hand to obtain a nomination of one Town/Community Councillor to be a member of the Selection Committee.

Thereafter, Mrs Jan Adams, who is acting as Clerk to the Selection Panel, will contact you again to confirm the date of the first meeting which has been provisionally agreed for the

If there are any matters arising from this letter or enclosures please do not hesitate to telephone me.

Yr eiddoch yn gywir Yours sincerely

Lynn Ball

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro
Director of Legal and Committee Services/Monitoring Officer

PENODIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu penodi pum aelod o'r cyhoedd (a elwir yn "aelodau annibynnol") ar ei Bwyllgor Safonau 17 Rhagfyr 2011.

Prif swyddogaeth y Pwyllgor Safonau yw derbyn adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch unrhyw haerid bod Cynghorydd Sir neu Gynghorydd Tref/Cymuned wedi torri'r Côd Ymddygiad. Ond yn ychwanegol at bum aelod annibynnol bydd ar y Pwyllgor Safonau un Cynghorydd Tref/Cymuned a'r Cadeirydd yn cael ei ethol o blith yr aelodau annibynnol.

Yn awr rydym yn gwadd ceisiadau gan y cyhoedd sydd :-

- Heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor Sir nac a Chyngor Tref/Cymuned, nac â gwleidyddiaeth leol;
- Sydd yn gymwys i fod ar gofrestr etholwyr Ynys Môn;
- Sy'n medru dangos fod ganddynt lefel uchel o annibyniaeth ac o onestrwydd personol;
- Sydd â rhywfaint o brofiad sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor Safonau;
- Sy'n weithgar yn cyfrannu'n bositif yn eu cymuned.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod yn Swyddfeydd y Cyngor Sir yn Llangefni ar ôl oriau gweithio.

Yn y lle cyntaf byddwn yn penodi am gyfnod o bedair blynedd ac ni fydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael tâl ond gellir talu rhai costau yn ôl cynllun y Cyngor Sir.

Mae ffurflenni cais a rhagor o fanylion ar gael trwy gysylltu â Miss Lynn Ball, Cyfarwyddwraig Cyfreithiol a Gwasanaethau Pwyllgor a Swyddog Monitro yn yr Adain Gyfreithiol, Swyddfeydd y Cyngor Sir, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW. Rhif ffôn 01248 752568.

Bydd raid dychwelyd ffurflenni wedi eu llenwi erbyn 2011.

Mae'n bolisi gan y Cyngor Sir i hyrwyddo ac integreiddio cyfleon cyfartal ym mhob agwedd o'i waith. O'r herwydd mae'r Cyngor yn gwadd ceisiadau oddi wrth grwpiau sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu tangynrychioli a hynny'n cynnwys merched, a pobl ifanc, phobl gydag anableddau a phobl o leiafrifoedd ethnig. Byddwn yn defnyddio egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac yn penodi yn ôl rhinweddau'r unigolyn.

APPOINTMENTS TO THE STANDARDS COMMITTEE

The Isle of Anglesey County Council intends to appoint five members of the public (called "independent members") to its Standards Committee by the 17th December 2011.

The main function of the Standards Committee is to act on reports received from the Public Services Ombudsman for Wales concerning any allegation that a County Councillor or a Town/Community Councillor has breached the Code of Conduct. In addition to the five independent members, the Standards Committee will include one Town/Community Councillor but will elect its Chairperson from among its independent members.

Applications are therefore invited from members of the public who :-

- have no connection with the County Council, or any Town/Community Council, or local politics;
- are eligible to be included on the register of electors in Anglesey;
- can demonstrate a high level of personal independence and integrity;
- who have some experience relevant to the work of the Standards Committee;
- are actively involved in making a positive contribution to their community.

The Standards Committee will meet at the County Council's Offices in Llangefni, outside working hours.

Appointments will be for an initial period of four years. Successful applicants will not be remunerated but certain expenses will be payable in accordance with the County Council's Scheme.

Application forms and further details may be obtained from Miss Lynn Ball, Director of Legal and Committee Services and Monitoring Officer at The Legal Section, County Council Offices, Llangefni, Isle of Anglesey LL77 7TW. Telephone No. 01248 752568.

Completed forms must be returned by no later than 2011.

The policy of the County Council is to promote and integrate equality of opportunity into all aspects of its work. The Council therefore welcomes and encourages applications from groups currently under represented, including women, young people, people with a disability and people from ethnic minorities. The principles of fair and open competition will apply and appointment will be made on merit.

Annwyl

**PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR
YNYS MÔN – CAIS AM AELODAU
ANNIBYNNOL**

Diolch i chi am eich ymholiad. Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda y canlynol :-

1. Gwybodaeth gefndirol yn cynnwys :-
 - y Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn sydd hefyd yn berthnasol i Aelodau'r Pwyllgor Safonau.
 - Rhestr o Lwfansau – bydd y Cyngor Sir yn ad-dalu i Aelodau Annibynnol gostau galwadau ffôn, teithio ac unrhyw dreuliau allan-o-boced eraill a hynny'n unol â threfniadau arferol y Cyngor.
2. Ffurflen gais yn cynnwys
 - Atodiad 1
Adrannau 80 ac 81 Deddf Llywodraeth Leol 1989
 - Atodiad 2
Niwtraliaeth/Annibyniaeth Wleidyddol
 - Atodiad 3
Profiad Perthnasol
 - Atodiad 4
Cyfraniad i'r Gymuned

Dear

**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL'S
STANDARDS COMMITTEE –
APPLICATION FOR INDEPENDENT
MEMBERS**

Thank you for your enquiry. Please find attached the following:

1. Background information including:-
 - the Code of Conduct adopted by the Isle of Anglesey County Council and also applicable to Members of the Standards Committee.
 - Schedule of Allowances – the County Council will reimburse independent Members for the cost of telephone calls, travel and any other out of pocket expenses in accordance with the Council's normal procedures.
2. Application form including
 - Appendix 1
s80 and 81 of the Local Government Act 1989
 - Appendix 2
Political
Neutrality/Independence
 - Appendix 3
Relevant Experience
 - Appendix 4
Contribution to the Community

3. Amlen gyda'r Post wedi'i dalu

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen yn ôl os gwelwch yn dda yn yr amlen bwrpasol at Miss Lynn Ball, Cyfarwyddwraig y Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW erbyn 5pm ar
..... 2011.

Yn anffodus, ni fydd modd ystyried ceisiadau hwyr.

Llawer o ddiolch.

Yr eiddoch yn gywir

3. Prepaid envelope

When completed please return the form in the prepaid envelope provided to Miss Lynn Ball, Director of Legal and Committee Services/Monitoring Officer, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW by 5pm on..... 2011.

Regrettably late applications cannot be considered.

Many thanks.

Yours sincerely

Lynn Ball

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro
Director of Legal and Committee Services/Monitoring Officer

GWYBODAETH GEFNDIROL I YMGEISWYR **BACKGROUND INFORMATION FOR APPLICANTS**

- Dan gyfraith gwlad mae'n rhaid i'r Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor Safonau.
- Mae gwaith y Pwyllgor Safonau yn cyffwrdd â'r holl Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned sy'n gynrychiolwyr i etholwyr Ynys Môn.
- Y rhain yw prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Safonau :-
 - Gweithredu ar adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt unrhyw haerid fod Cynghorydd wedi torri'r Côt Ymddygiad. Efallai y gofynnir i'r Pwyllgor Safonau gynnal Gwrandawriad ac, os ydyw'n briodol, benderfynu ar gosb i Gynghorydd ar ôl sefydlu bod hwnnw wedi torri'r Côt Ymddygiad. Y gosb fwyaf y gall y Pwyllgor Safonau ei defnyddio yw atal unigolyn rhag bod yn Gynghorydd am gyfnod o chwe mis.
 - Ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr. Os ydyw'r caniatâd arbennig yn cael ei roddi yna gall y Cynghorydd gyfranogi mewn trafodaeth a phleidleisio ar eitem neu eitemau na châi, fel arall ac oherwydd darpariaeth yn y Côt Ymddygiad, gyfrannu yn ei chylch/cylch. Penderfynir ar geisiadau o'r fath fesul un gan ddibynnu ar a ydyw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn sefydlu rheswm statudol sy'n caniatáu i'r Pwyllgor Safonau roddi caniatâd arbennig o'r fath. Dan yr amgylchiadau hyn rhaid i'r Pwyllgor Safonau fodloni'i hun bod y budd cyhoeddus yn ystyriaeth bwysicach nag unrhyw waharddiad yn y Côt.
 - Sicrhau fod y Cynghorwyr yn cael hyfforddiant digonol yng nghyswllt y Côt Ymddygiad.
- The County Council is legally required to operate a Standards Committee.
- The work of the Standards Committee extends to all County Councillors and Town/Community Councillors representing the electorate of Anglesey.
- The main functions of the Standards Committee are :-
 - To act on reports received from the Public Services Ombudsman for Wales concerning any allegation that a Councillor has breached the Code of Conduct. The Standards Committee may be asked to conduct a Hearing and, if appropriate, it will issue a sanction against any Councillor whom it finds has breached the Code of Conduct. The maximum sanction available to the Standards Committee is suspension from being a Councillor for six months.
 - To consider applications from Councillors for dispensations. If granted, a dispensation allows a Councillor to take part in discussion and voting on an item or items from which he/she would otherwise be precluded by reason of a provision in the Code of Conduct. These applications are decided on a case by case basis, depending upon whether the evidence presented establishes one of the statutory grounds which permit the Standards Committee to grant such dispensations. In essence, these are circumstances in which the Standards Committee is satisfied that the public interest has been shown to override a prohibition in the Code.
 - To ensure that Councillors are offered adequate training with regard to the Code of Conduct.

- Ar Bwyllgor Safonau Ynys Môn mae pump o aelodau annibynnol (h.y aelodau o'r cyhoedd, nid Cynghorwyr), 3 Cynghorydd Sirol a 1/2 Cynghorydd Tref/Cymuned a'r olaf yn cyfrannu yn y drafodaeth pan fo'r pwnc yn ymwneud â Chynghorydd Tref neu Gymuned. Rhaid dewis un o blith yr aelodau annibynnol i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.
- Daw cyfnodau yr holl aelodau annibynnol presennol i ben ar Ond mae gan yr aelodau hynny hawl i ailymgeisio yn yr un ffordd ag ymgeiswyr eraill.
- I bwrpas dewis Pwyllgor Safonau newydd mae'n rhaid i'r Cyngor, dan y rheoliadau, sefydlu Panel Dethol i benderfynu ar feini prawf, hysbysebu, paratoi rhestr fer a dethol, trwy gyfweiliad y pum aelod annibynnol newydd. Ar Y Panel Dethol mae pum aelod – tri Chynghorydd Sir, sef y Cynghorwyr W J Chorlton, Bob Parry and Bryan Owen. Hefyd mae arno un Gynghorydd Tref/Cymuned, sef ac un aelod lleig, sef Bydd argymhelliad y Panel Dethol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn a bydd raid i hwnnw benodi'n ffurfiol yr aelodau o'r Pwyllgor Safonau newydd a fydd yn dod i rym ar Bydd tymor yr aelodau newydd mewn swydd yn parhau am bedair blynedd.
- Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau yn cael eu cynnal ym Mhencadlys y Cyngor yn Llangefni ac fel arfer yn ystod oriau gwaith yn ystod yr wythnos waith ar adeg sy'n gyfleus i'r aelodau. Bydd y gwrandawliadau yn gyhoeddus ond yn breifat y trafodir y penderfyniad a wedyn cyhoeddir hwnnw i'r cyhoedd. Yn breifat hefyd y darperir sesiynau hyfforddiant. Darperir lluniaeth. Unwaith yn unig bob 12 mis y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyfarfod ond oherwydd anghenion hyfforddiant Pwyllgor newydd mae'n debyg y bydd mwy o lawer o gyfarfodydd ar y dechrau. Yn yr 18 mis diwethaf mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn rheolaidd
- Anglesey's Standards Committee consists of five independent members (i.e. members of the public and not Councillors), 3 County Councillors and 1/2 Town/Community Councillor(s) who contribute to proceedings only when they relate to a Town or Community Councillor. The Chair of the Standards Committee must be appointed from among the independent members.
- The term of office of each of the current independent members will come to an end on the Current members are entitled to re-apply and to be considered in the same way as other applicants.
- In order to choose a new Standards Committee, in compliance with the regulations, the Council has established a Selection Panel to devise the criteria, advertise, short-list and select, by interview, the five new independent members. The Selection Panel consists of five members, including three County Councillors, who are Councillors W J Chorlton, Bob Parry and Bryan Owen. In addition there will be one Town/Community Councillor, who is Councillor of Ward and one lay member who is The Selection Panel will recommend its selection to the full Council, which must formally appoint the members of the new Standards Committee with effect from the Their term of office will be four years.
- Meetings of the Standards Committee will take place at the Council's Headquarters at Llangefni and will take place usually during the working day on week days and at the convenience of the members. Hearings will be conducted in public but deliberations and decision making will take place in private session and the outcome will be announced in public. Training sessions will also take place in private. Refreshments are provided. The Standards Committee is only required to meet once in every period of 12 months but, in view of the training needs of a new Committee, it is likely that there will be significantly more meetings at the outset.

